Mae Rhys yn drafftio llythyr i gylchgrawn ar gyfer pobl ifanc oherwydd mae ganddo broblem. Fodd bynnag, mae angen iddo ddarllen y llythyr eto gan fod ynddo nifer o wallau a bylchau.

Tŷ'r Ditw
Penrhyndeudraeth
Gwynedd

Mawrth 23

Annwyl *Gweiddi*

………………… gynnwys y llythyr yma yn y rhifyn nesaf os gwelwch yn dda? Hoffwn i wybod beth yw barn pobl ifanc eraill am fy mhroblem i, sef …

Ar ôl gorffen fy nghwrs Lefel A ac eistedd yr arholiadau, hoffwn i fynd i deithio am ychydig gyda grŵp o ffrindiau. Bydda i'n 18 oed erbyn hynny,  a bydda i'n ddigon hen i wneud fy meddwl i fyny.

Hoffwn i fynd i Dde Asia, cael gwaith rhan amser er mwyn ennill ychydig o arian ac yna teithio o le i le am flwyddyn. Yna, bydda i'n barod i ddod gartref a mynd i weithio neu fynd i'r coleg efallai. Dw i wir eisiau teithio a gweld y byd cyn gwneud unrhyw beth arall.

Ond dydy fy nad ddim yn cytuno. Mae o'n dweud y ………………… benderfynu rŵan beth dw i eisiau ei wneud yn y dyfodol. Mae o'n dweud bod angen i mi ddechrau meddwl am ennill cyflog cyn gynted â phosib fel fy mod i'n gallu dechrau safio arian ar gyfer y dyfodol.

Dw i ddim eisiau gwneud hynny?

Oes gennych chi unrhyw gyngor?

Rhys Smith